



Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

POLISI DIOGELU AC AMDDIFFYN PLANT

**Cynghrair o 6 awdurdod lleol yw ERW a reolir gan gyd-bwyllgor cyfansoddiadol cyfreithiol.
Y nod yw gweithredu strategaeth a chynllun busnes rhanbarthol cytunedig a chefnogi gwelliant ysgolion.**

ERW is an alliance of 6 local authorities governed by a legally constituted joint committee.
Its aim is to implement the agreed regional strategy and business plan to support school improvement.



Rhagair

Gweledigaeth ERW yw creu rhwydwaith o ysgolion sy'n perfformio'n dda yn gyson ledled y rhanbarth, lle mae pob ysgol yn dda ac yn cynnig safonau addysgu uchel dan arweinyddiaeth dda, a lle mae pob dysgwr yn cyrraedd ei lawn botensial.

Mae amddiffyn ein dysgwyr a'n hoedolion sy'n agored i niwed yn egwyddor sylfaenol i'r rhanbarth, ac mae gan ERW, yn ogystal â'i ysgolion a'i Awdurdodau Lleol cyfansoddol, rôl allweddol i'w chwarae er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn ddiogel yn ystod ei gyfnod ym myd addysg.

Mae amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin yn gyfrifoldeb a rennir i bob aelod o staff. Ni ddylid byth tybio y bydd rhywun arall yn nodi ac yn rhoi gwybod am blant neu oedolion agored i niwed sydd mewn perygl.

Er mwyn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, mae'n hollbwysig bod yr holl asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol. Llywodraethir ein polisi gan nifer o ddogfennau canllaw, fel y'u rhestrir isod. Fodd bynnag, [Deddf Plant 1989](#) yw'r brif ffynhonnell sy'n rhoi arweiniad ym maes Amddiffyn Plant:- [Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004](#); [Rheoliadau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 \(Gweithgarwch Rheoledig\) \(Cymru\) 2010](#); [Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 52/95: Cydweithio er Mwyn Sicrhau Canlyniadau Cadarnhaol; Canllawiau Sefydliad Cenedlaethol Cyflogwyr Athrawon Ysgol, 'Protecting children from abuse the role of the education service and the update of the annexe to 52/95'](#); [Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002](#); [Cylchlythyr y Cynulliad Cenedlaethol 34/02: Amddiffyn Plant: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg; Safeguarding Children in whom illness is fabricated or induced \(2008\)](#); [Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 52/95: 'Protecting Children from Abuse: The role of the Education Service'](#). Mae'r gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd pryder wedi'u cynnwys yng [Nghanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan \(2008\)](#)

Cyflwyniad

"Rydym oll yn gydgyfrifol am ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc, boed hynny fel rhiant neu aelod o deulu, ffrind neu gymydog, cyflogwr neu weithiwr cyflogedig neu wirfoddol. Gall aelodau o'r gymuned helpu i ddiogelu plant a phobl ifanc os ydynt yn ystyriol o'u hanghenion, ac yn barod ac yn abl i weithredu os oes ganddynt bryderon ynghylch lles plentyn."

[Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004](#)

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â pholisïau a gweithdrefnau chwe awdurdod lleol ERW. Dylai staff ddilyn gweithdrefnau a threfniadau diogelu'r sefydliad sy'n eu cyflogi yn y lle cyntaf, a phan fyddant yn gweithio y tu allan i'r sefydliad sy'n eu cyflogi, dylent gyfeirio at yr awdurdod perthnasol fel y'i nodir yn yr atodiad.

Mae'r ddogfen hon

- yn nodi'r trefniadau y dylai staff craidd ERW eu dilyn os bydd pryder neu ddatgeliad; ac

- yn nodi'n glir y trefniadau ar gyfer staff sy'n gweithio y tu allan i'r sefydliad sy'n eu cyflogi neu ar draws ysgolion/awdurdodau lleol.

Caiff y polisi ei adolygu bob blwyddyn, gan ystyried adborth ac unrhyw ddogfennau polisi neu ganllawiau newydd.

Mae ERW yn ymrwymedig i ddiogelu ac amddiffyn pob plentyn ac oedolyn sy'n agored i niwed, a bydd yn cymryd camau i ddiogelu eu lles a chydabod bod gan blant ac oedolion sy'n agored i niwed yr hawl i gael eu hamddiffyn.

Mae ERW yn gweithio gyda phartneriaid amlddisgyblaethol o fewn y fframwaith a sefydlwyd gan:

. CYSUR – Bwrdd Lleol Diogelu Plant Rhanbarthol

. Bwrdd Lleol Diogelu Plant Bae'r Gorllewin

. Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008

. Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004, Adran 28, Deddf Addysg 2002, Adran 175 – Mae dyletswydd statudol ar ysgolion i sicrhau bod trefniadau ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

. Mae'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes Honiadau o Gam-drin Proffesiynol wedi'u cynnwys yn Rhan 4 o GANLLAWIAU AMDDIFFYN PLANT CYMRU GYFAN 2008 (am ragor o fanylion, gweler trefniadau Cyngor Sir Penfro fel cyflogwr).

Nodau

- Nod pob ysgol ac ERW yw darparu amgylchedd lle mae plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, a lle maent yn gwybod sut i fynd at oedolion os byddant yn wynebu anawsterau, gan wybod y bydd yr oedolion hynny'n gwrandao arnynt yn effeithiol.

Mae tair prif elfen i'n polisi o ran gweithredu'r nod uchod:

- Atal trwy'r addysgu a'r cymorth bugeiliol a gynigir i ddisgyblion, a chreu a chynnal amgylchedd diogel ar draws yr ysgol gyfan a'r lleoliad gwaith lle mae'r plant yn gwybod at bwy i fynd os oes ganddynt unrhyw bryderon ynghylch eu llesiant. Tynnir sylw at hyn ym mlaenoriaeth y Cynllun Busnes:

'gwella ansawdd diogelu ar draws y rhanbarth'.

- Mae gweithdrefnau ar gyfer nodi pryderon am lesiant plentyn a rhoi gwybod amdanynt wedi'u cynnwys yng Nghanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
- Mae atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant trwy brosesau fetio a recriwtio cadarn yn hollbwysig. Mae ERW wedi mabwysiadu polisi Cyngor Sir Penfro ar gyfer staffio a recriwtio diogel.

1. Atal

Rydym yn cydnabod bod hunanwerth uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn helpu i amddiffyn disgyblion.

Bydd ERW yn:

- Sefydlu ac yn cynnal ethos lle mae plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad, a lle mae rhywun yn gwrandao arnynt.
- Sicrhau bod plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol/y gwasanaeth y gallant fynd atynt os byddant yn poeni am eu llesiant, yn teimlo'n bryderus neu'n wynebu anawsterau.
- Cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd ar gyfer ABGI yn y cwricwlwm, er mwyn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar blant i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth, a gwybodaeth am bwy i fynd atynt am help.
- Cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu'r plant i ddatblygu agweddau realistig at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn enwedig o ran sgiliau gofal plant a rhianta.
- Sicrhau bod gan bob aelod angenrheidiol o staff wiriad cyfredol gan y DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd).

Bydd awdurdodau lleol unigol yn:

- sicrhau bod y staff y maent yn eu cyflogi i weithio'n rhan o ERW yn meddu ar y gwiriad angenrheidiol gan y DBS;
- cael cyfleoedd hyfforddi a datblygu priodol;
- cwbl ymwybodol o'r disgwyliadau a bennir ym mholisi ERW, a'r modd y mae'r polisi'n cyd-fynd â threfniadau awdurdodau lleol unigol, ac yn bodloni'r disgwyliadau hynny.

2. Gweithdrefnau

Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Rôl y Cydgysylltydd Amddiffyn Plant Dynodedig

Rhaid i bob ysgol, awdurdod lleol ac ERW gael uwch-aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am ddelio â materion amddiffyn plant a rhoi cyngor/cymorth i aelodau eraill o staff.

Dylai swyddog dynodedig ERW gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cydbwyllgor.

Dylai'r materion gynnwys:

- Adborth ar faterion sy'n effeithio ar y polisi amddiffyn plant hwn
- Hyfforddiant amddiffyn plant y mae'r staff wedi ei gael
- Monitro staff yr honnwyd eu bod wedi cam-drin
- Rhaid i enw'r Cydgysylltydd Amddiffyn Plant Dynodedig fod wedi'i ddangos yn glir.

- Sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw bryderon a all fod ganddo am lesiant plentyn
- Sicrhau bod pob aelod o staff ac unrhyw wirfoddolwyr yn gallu cael gafael ar y polisi amddiffyn plant hwn a'u bod yn ei ddeall
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau i atgyfeirio unrhyw bryderon am lesiant plentyn at Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr ALL perthnasol
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o rôl yr uwch-aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am amddiffyn plant o ran bod yn ffynhonnell o gymorth, cyngor ac arbenigedd wrth wneud atgyfeiriadau priodol at y Tîm Asesu Plant a Theuluoedd.

Cyfrifoldeb ERW o ran yr Aelod Dynodedig o Staff sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant:

Sicrhau bod yr aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn cael yr amser a'r hyfforddiant i gyflawni ei ddyletswyddau i fod yn ffynhonnell cymorth, cyngor ac arbenigedd wrth wneud atgyfeiriadau priodol at y Tîm Asesu Plant a Theuluoedd.

Dylai pob Cydgysylltydd Amddiffyn Plant fod wedi cael hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2. Dylid cadw cofnod o lefel yr hyfforddiant yr ymgwymerwyd ag ef gan staff ysgolion a staff Adrannau Addysg a Gwasanaethau Cymunedol sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed ar ffeil, ynghyd â dyddiadau'r hyfforddiant hwnnw.

Bydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn trefnu rhaglen reolaidd o hyfforddiant ar Lefel 2 (diwrnod cyfan) ar gyfer yr holl Gydgyssylltwyr Amddiffyn Plant dynodedig hynny. Caiff ysgolion ac Adrannau Addysg a Gwasanaethau Cymunedol wybod am y digwyddiadau hyfforddi sydd ar gael trwy gydol y flwyddyn.

Hefyd, cyfrifoldeb y Cydgysylltydd Amddiffyn Plant yw sicrhau bod hyfforddiant ymsefydlu ar amddiffyn plant ar gael i bob aelod o staff a gwirfoddolwr, er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn os oes ganddo bryderon am blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed.

Adnabod Achosion o Gam-drin Plant

Mae Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 yn nodi pedwar categori o gam-drin:

- Esgeulustod
- Anaf Corfforol
- Cam-drin Rhywiol
- Cam-drin Emosiynol

Mae staff cynghori a staff eraill nad ydynt yn cynghori mewn sefyllfa arbennig i adnabod arwyddion cam-drin plant. Felly, mae'n bwysig bod unrhyw amheuaeth o gam-drin yn cael ei hystyried o ddifrif, a bod system gyfathrebu glir rhwng ysgolion a'r Gwasanaeth Addysg, yn ogystal â rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill megis Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr ALL a'r Heddlu.

Camau i'w Cymryd yn Syth

a) Dweud wrth unigolyn dynodedig yr ysgol/sefydliad sy'n gyfrifol am amddiffyn plant. Os na fydd yr unigolyn dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant ar gael, ni ddylai aelodau o staff oedi cyn gwneud atgyfeiriad at Wasanaethau Cymdeithasol yr ALL.

Cyngor Sir Caerfyrddin – Ffôn: 01554 742322 (Y tu allan i oriau – Ffôn: 01558 824283)

Cyngor Sir Ceredigion – Ffôn: 01545 574000 (Y tu allan i oriau – Ffôn: 0845 6015392)

Cyngor Castell-nedd Port Talbot – Ffôn: 01639 686803 (Y tu allan i oriau – Ffôn: 01639 895455)

Cyngor Sir Penfro – Ffôn: 01437 776444/764551 (Y tu allan i oriau – Ffôn: 08708 509508)

Cyngor Sir Powys – Ffôn: 0845 6027050 (Y tu allan i oriau – Ffôn: 0845 054 4847)

Cyngor Sir Abertawe – Ffôn: 01792 635700 (Tîm Dyletswydd Brys: 01792 775501)

b) Dylid atgyfeirio pob pryder am lesiant plentyn at y Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yn asesu a yw'r pryder yn ymwneud â Phlentyn mewn Angen neu Blentyn y Mae Angen ei Amddiffyn.

c) Os dywedir wrth aelod o staff fod plentyn wedi datgelu ei fod wedi cael ei gam-drin, NI DDYLAI'R aelod o staff roi cyfweiliad ffurfiol i'r plentyn er mwyn cadarnhau'r pryderon, ond rhaid iddynt atgyfeirio'r mater at y Gwasanaethau Cymdeithasol AR UNWAITH.

d) Dylid rhoi gwybod i Gydgysylltydd Amddiffyn Plant yr Ysgol/Sefydliad/ALL ar unwaith am yr holl atgyfeiriadau a wnaed at y Gwasanaethau Cymdeithasol.

e) Os yw'r plentyn ar fin gadael safle'r ysgol, dylid rhoi gwybod i Bennaeth yr ysgol/sefydliad. Y Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, fydd yn penderfynu ar y cam nesaf i'w gymryd.

Os oes gan blentyn mewn ysgol anaf ac mae rheswm dros gredu mai cam-drin yw achos yr anaf hwnnw, dylid cymryd y camau canlynol.

a) Os yw'r anaf yn ddifrifol ac mae angen sylw meddygol brys, dylid mynd â'r plentyn i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Mewn argyfwng, dylid galw 999.

b) Dylid rhoi gwybod i'r Tîm Asesu Plant a Theuluoedd cyfrifol am y camau hyn AR UNWAITH, oherwydd mae'n bosibl y bydd am wneud trefniadau i'r plentyn gael ei archwilio gan Bediatregydd pan fydd yn cyrraedd yr Ysbyty. Dylid ei gwneud yn glir fod amheuaeth o gam-drin.

c) Mewn achosion lle mae achos rhesymol dros gredu mai'r rhiant neu'r gofalwr sy'n gyfrifol am gam-drin neu achosi'r anaf, rhaid i'r holl staff gofio bod buddiannau'r plentyn o'r pwys mwyaf ac y dylent felly drafod eu pryderon â'r Tîm Asesu Plant a Theuluoedd neu'r Heddlu a fydd yn penderfynu pryd y caiff y rhieni/gofalwyr eu hysbysu.

d) Rhaid i Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol gael gwybod ar unwaith am y camau hyn.

Camau Gweithredu Dilynol

a) Rhaid i gopïau o'r HOLL atgyfeiriadau gael eu cadarnhau ar y Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth, a rhaid i'r ffurflen hon gael ei hanfon trwy e-bost at y Tîm Asesu Plant a Theuluoedd yn ogystal â Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol cyn gynted â phosibl ar ôl yr alwad ffôn gyntaf.

b) Os oes amheuaeth o gam-drin, ac os yw er budd y plentyn i wneud hynny, gall y Pennaeth ganiatáu i'r plentyn gael ei gyfweld yn yr ysgol ar gais yr Heddlu a/neu'r Tîm Asesu Gofal Plant, ar yr amod ei fod ef/hi neu ei enwebai hefyd yn bresennol – yr aelod o staff sy'n adnabod y plentyn yn dda fydd yr unigolyn hwn. Rhaid i unrhyw ddatganiad sy'n deillio o gyfweiliad mewn ysgol gael ei ddarllen gan y Pennaeth neu ei enwebai a'i lofnodi'n gofnod cywir o'r hyn a ddywedwyd.

Os bydd plentyn yn dweud wrthyhych am achos posibl o gam-drin

a) Pan fydd honiad yn cael ei wneud yn uniongyrchol gan blentyn, rhaid i chi egluro bod dyletswydd arnoch i drosglwyddo'r wybodaeth i'r Tîm Asesu Gofal Plant neu'r Heddlu.

b) PEIDIWCH ag addo cyfrinachedd.

c) Gwrandewch ar y plentyn yn hytrach na gofyn cwestiynau uniongyrchol iddo.

d) Peidiwch byth ag atal plentyn sy'n galw digwyddiadau pwysig i gof.

e) Gwnewch nodyn o'r drafodaeth, gan gofio cofnodi'r amser, y lleoliad a'r personél a oedd yn bresennol, yn ogystal â'r hyn a ddywedwyd*. Mae'n hollbwysig eich bod yn cofnodi union eiriau'r plentyn.

f) Dylech atgyfeirio unrhyw bryderon am lesiant plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed at y Tîm Asesu Plant a Theuluoedd. Gellir gofyn i'r unigolyn dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn yr All am gyngor a chymorth i wneud atgyfeiriad. Fodd bynnag, ni ddylid oedi cyn gwneud yr atgyfeiriad os yw'r unigolyn hwnnw yn absennol.

g) Dywedwch wrth yr unigolyn dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn yr ysgol/sefydliad cyn gynted â phosibl fod atgyfeiriad wedi'i wneud.

Wrth ddelio â honiad o gam-drin yn erbyn aelod o staff pan fydd amheuaeth neu honiad bod disgybl neu oedolyn sy'n agored i niwed wedi cael ei gam-drin gan aelod o staff, rhaid dilyn y gweithdrefnau canlynol:

Mae gweithdrefnau mewn perthynas â honiadau yn erbyn gweithiwr proffesiynol wedi'u cynnwys yn Rhan 4.3.6 o Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Os bydd plentyn yn gwneud honiad yn erbyn aelod o staff, dyma'r camau manwl y dylid eu cymryd:-

Cam 1 – RHAID I BOB AELOD O STAFF roi gwybod i'r rheolwr gyfarwyddwr am yr honiad.

Cam 2 – Rhaid i'r Pennaeth/Rheolwr gynnal asesiad o'r 'risg' ar unwaith, a chymryd camau priodol i ddiogelu llesiant y plentyn/oedolyn sy'n agored i niwed. (Efallai y bydd angen iddo geisio cymorth meddygol).

Cam 3 – Os yw'r aelod o staff yn gwbl anymwybodol o'r honiad a wnaed yn ei erbyn, yna, rhaid i chi geisio cyngor ynghylch pa un a ddylid dweud wrth yr aelod hwnnw o staff ai peidio. Yn gyntaf, dylech gysylltu â Swyddog Amddiffyn Plant dynodedig yr ALL. Os nad yw'r Swyddog hwnnw ar gael, cysylltwch â Rheolwr y Tîm Asesu yn adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Penfro am arweiniad.

Efallai y bydd yn rhaid i'r Pennaeth/Rheolwr ddweud wrth yr aelod o staff fod honiad wedi cael ei wneud yn ei erbyn os gwelwyd y gwrthdaro'n amlwg gan eraill ac os yw'r risgiau'n fawr.

*Ni ddylai'r Pennaeth/Rheolwr ymrwymo i unrhyw gytundeb cyfaddawdol â'r cyflogai, ond bydd angen iddo ei gefnogi gan ei fod bellach yn destun ymchwiliad.

*Yn dibynnu ar ddirifoldeb yr honiad, efallai y bydd angen i'r Pennaeth/Rheolwr gadw'r aelod o staff ar wahân i'r plentyn/oedolyn sy'n agored i niwed.

Cam 4 – Mewn achos difrifol iawn, efallai y bydd angen i'r Pennaeth ystyried 'gwahardd' yr aelod o staff dros dro. Fodd bynnag, dim ond ar ôl rhoi cynnig ar bob opsiwn arall y dylid ystyried gwneud hyn. Ystyrir gwahardd dros dro yn weithred niwtral.

Os bydd y Pennaeth/Rheolwr yn penderfynu 'gwahardd' yr aelod o staff dros dro, bydd yn gyfyngedig o ran faint o wybodaeth y gall ei rhoi i'r aelod o staff.

. Gall ond ddweud bod honiad wedi cael ei wneud yn ei erbyn.

. Oni bai ei fod yn gwybod yn barod, ni all ddweud wrtho pwy a wnaeth yr honiad, na rhoi manylion yr honiad iddo.

. Er mwyn ymchwilio i'r mater yn briodol, efallai y bydd yn rhaid iddo ei wahardd dros dro o'r gwaith ar unwaith. Gall y cyflogai gysylltu â'i Undeb am gyngor os bydd yn dymuno gwneud hynny. Mae hon yn weithred niwtral.

. Rhaid i'r cyflogai gael enw cyswllt yn yr ysgol/man gwaith y gall gysylltu ag ef.

. Rhaid iddo gael rhif ffôn Gwasanaeth Cwnsela Cyngor Sir Penfro.

Cam 5 – Rhaid i Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol gael gwybod am honiad o gam-drin/drosedd yn erbyn plentyn a wneir ynghylch aelod o staff cyn gynted â phosibl. Cysylltwch â'r canlynol a gofynnwch am gael siarad â'r Gweithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd i gael cyngor.

Cyngor Sir Caerfyrddin – Ffôn: 01554 742322 (Y tu allan i oriau – 01558 824283)

Cyngor Sir Ceredigion – Ffôn: 01545 574000 (Y tu allan i oriau – Ffôn: 0845 6015392)

Cyngor Castell-nedd Port Talbot – Ffôn: 01639 686803 (Y tu allan i oriau – Ffôn: 01639 895455)

Cyngor Sir Penfro – Ffôn: 01437 776444/764551 (Y tu allan i oriau – Ffôn: 08708509508)

Cyngor Sir Powys – Ffôn: 0845 6027050 (Y tu allan i oriau – Ffôn: 0845 054 4847)

Cyngor Sir Abertawe – Ffôn: 01792 635700 (Tîm Dyletswydd Brys/Y tu allan i oriau – Ffôn: 01792 775501)

*Ar ôl i'r Uwch-reolwr cyfrifol priodol yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol gael yr atgyfeiriad ar lafar, bydd yn cydgysylltu'r ymateb.

Cam 6 – Mae'n hollbwysig bod Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig yr ALL dan sylw yn cael gwybod am yr honiad cyn gynted â phosibl, a gall hefyd gynnig cyngor –

Cyngor Sir Caerfyrddin – Ffôn: 01554 742322 (Y tu allan i oriau – 01558 824283)

Cyngor Sir Ceredigion – Ffôn: 01545 574000 (Y tu allan i oriau – Ffôn: 0845 6015392)

Cyngor Castell-nedd Port Talbot – Ffôn: 01639 686803 (Y tu allan i oriau – Ffôn: 01639 895455)

Cyngor Sir Penfro – Ffôn: 01437 776444/764551 (Y tu allan i oriau – Ffôn: 08708509508)

Cyngor Sir Powys – Ffôn: 0845 6027050 (Y tu allan i oriau – Ffôn: 0845 054 4847)

Cyngor Sir Abertawe – Ffôn: 01792 635700 (Tîm Dyletswydd Brys/Y tu allan i oriau – Ffôn: 01792 775501)

Cam 7 – Rhaid i atgyfeiriad ysgrifenedig gael ei gwblhau ar y ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaeth, a rhaid i'r ffurflen hon gael ei hanfon at y Tîm Asesu yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion â chymaint o wybodaeth arni â phosibl. Gellir anfon y ffurflen hon trwy e-bost i:

Cyngor Sir Caerfyrddin – safeguarding@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Ceredigion – contact-socservs@ceredigion.gov.uk

Castell-nedd Port Talbot – social.services@npt.gov.uk

Cyngor Sir Penfro – CCAT@pembrokeshire.gov.uk

Cyngor Sir Powys – <http://www.powys.gov.uk/en/contact-the-council/>

Cyngor Sir Abertawe – access.information@swansea.gov.uk/edt@swansea.gov.uk

Cam 8 – O fewn 48 awr, neu'n gynt os yw'n bosibl, bydd uwch-reolwr yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr ALL yn cynnull cyfarfod strategaeth, ac estynnir gwahoddiad i'r Pennaeth/Rheolwr ddod i'r cyfarfod hwn gyda'r holl wybodaeth sydd ar gael ynghylch: a) y plentyn a b) yr aelod o staff.

Cadw cofnodion

- NID CYFRIFOLDEB Y PENNAETH/RHEOLWR/CYNGHORYDD YW CYNNAL YMCHWILIAD – MATER I'R CYFARFOD STRATEGAETH YW GWNEUD Y PENDERFYNIAD HWWNW, DAN ARWEINIAD YR ADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL.

Fodd bynnag, bydd angen i'r Pennaeth/Rheolwr gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl er mwyn canfod ffeithiau'r honiad. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hystyried gan y Cyfarfod Strategaeth a dylai fod o gymorth i bennu'r ffordd ymlaen.

Dylai unrhyw aelod o staff sy'n cael datgeliad o gam-drin gan blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, neu sy'n sylwi ar arwyddion neu symptomau achos posibl o gam-drin plentyn/oedolyn sy'n agored i niwed, wneud nodiadau cyn gynted â phosibl o'r hyn a ddywedwyd neu a welwyd, gan osod y sefyllfa yn ei chyd-destun, a nodi'r amser a'r lleoliad.

Dylai dyddiadau ac amseroedd digwyddiadau gael eu cofnodi mor gywir â phosibl, ynghyd â'r dyddiad y gwnaed y cofnod. Dylai'r cofnod hwn gael ei lofnodi a'i ddyddio, a'i roi i'r athro dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant/yr unigolyn dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn y sefydliad.

ARALL

- O ran staff a gyflogir gan ERW, dylid glynu wrth bolisi gweithdrefnau defnyddio'r Rhynggrwyd Cyngor Sir Penfro.
- Dylai fod gan ysgolion eu polisi eu hunain, a ddylai gael ei adolygu bob blwyddyn gan y Corff Llywodraethu. Mae'r canllawiau yn canolbwyntio ar lesiant a diogelwch personol disgyblion yr ysgol ac mae'n nodi nifer o bwyntiau i egluro'r peryglon posibl a'r camau y gall staff eu cymryd i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r Rhynggrwyd.
- Pan fo gwasanaethau neu weithgareddau yn cael eu darparu ar wahân gan sefydliad arall, bydd y Corff Llywodraethu ac ERW yn ceisio sicrwydd bod gan y grŵp dan sylw bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant.

<http://www.childreninwales.org.uk/wp-content/uploads/2015/09/Canllawiau-Amddiffyn-Plant-Cymru-Gyfan-20081.pdf>

**Canllawiau Amddiffyn Plant
Cymru Gyfan
2008
All Wales Child Protection
Procedures**

www.awcpp.org.uk

Produced on behalf of All Local Safeguarding Children Boards in Wales

Cynhyrchwyd ar ran Byrddau Lleol Diogelu Plant Cymru Gyfan

Atodiad 2: Trefniadau Recriwtio Diogel Cyngor Sir Penfro

Polisi Recriwtio a Dethol

Fel cyflogwr mawr yn y sector cyhoeddus, mae Cyngor Sir Penfro yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ganddo drefniadau agored, teg a moesegol ar waith ar gyfer penodi ei gyflogeion. Mae'r ddogfen hon yn nodi fframwaith polisi corfforaethol y Cyngor ar gyfer recriwtio a dethol.

Caiff yr holl benodiadau i gyflogaeth â thâl gyda Chyngor Sir Penfro eu gwneud ar sail teilyngdod, h.y. y meini prawf ar gyfer dethol unigolion ar gyfer cyflogaeth fydd eu gallu i fodloni gofynion swyddi penodol fel y'u diffinnir gan swydd-ddisgrifiadau a manylebau person.

Bydd yr holl benodiadau yn gyson â rhwymedigaethau'r Cyngor fel cyflogwr dan ddeddfwriaeth gyfredol, ac, yn benodol, y Ddeddf Cydraddoldeb.

Bydd yr holl benodiadau yn gyson ag egwyddorion ac amcanion Datganiad Cyfle Cyfartal y Cyngor.

Caiff yr holl ymarferion recriwtio eu cynnal yn unol â darpariaethau a safonau Cod Ymarfer Recriwtio a Dethol y Cyngor, yn ogystal â chyngor a roddir i reolwyr llinell.

Bydd y Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl unigolion a awdurdodir i fod yn rhan o'r broses o recriwtio a dethol pobl i weithio i'r Awdurdod wedi cael hyfforddiant digonol a phriodol i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Caiff y polisi hwn, y Cod Ymarfer a'r cyngor sy'n ei gefnogi, eu hadolygu neu eu diwygio'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn arferion recriwtio, deddfwriaeth cyflogaeth, y farchnad lafur a phatrymau gweithio.

Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed

Mae Cyngor Sir Penfro yn ymrwymedig i ddiogelu llesiant plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yn ei ofal, a hynny mewn diwylliant lle mae diogelu yn cael y flaenoriaeth uchaf. Mae'n ofynnol i gyflogeion rannu'r ymrwymiad hwn.

I'r perwyl hwn, bydd cyflogeion a fydd yn gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu recriwtio yn unol â Chod Ymarfer y Cyngor, a byddant yn cael eu fetio yn unol â safonau penodedig. Mae hyn yn golygu bod gwiriadau priodol o gefndir trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geir daon boddhaol yn orfodol. Caiff addasrwydd ymgeiswyr i weithio gyda phlant ei archwilio trwy wiriadau â chyflogwyr presennol a blaenorol fel rhan o'r broses fetio, ac yn ystod y cyfweiliad. Ni fydd y Cyngor yn cyflogi unrhyw un i weithio gyda phlant nac oedolion sy'n agored i niwed os oes unrhyw amheuaeth resymol ynghylch ei addasrwydd i wneud hynny.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod proses hyfforddiant ymsefydlu cyflogeion yn cynnwys canllawiau ar arferion gorau ym maes diogelu ac amddiffyn, a bod cyflogeion yn cael eu goruchwyllo'n ofalus ac yn rheolaidd yn eu gwaith gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Atodiad 3: Polisi a gweithdrefnau – ALL



3.1 Sir Benfro

http://www.pembrokeshire.gov.uk/content.asp?nav=1210,1211,1226&d1p1=1&parent_directory_id=646&id=14176&language=CYM



3.2 Sir Gaerfyrddin

<http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/gwasanaethau-plant-a-theulu/a-ydych-chin-poeni-am-blentyn/#.VzNPTv50yfw>



3.3 Abertawe

<http://www.abertawe.gov.uk/diogeluplant>



3.4 Castell-nedd Port Talbot

<http://www.npt.gov.uk/default.aspx?page=2356&lang=cy-gb>



SAFEGUARDING CHILDREN

and

PROMOTING WELFARE

GUIDELINES FOR EFFECTIVE
SAFEGUARDING PRACTICE IN SCHOOLS,
EDUCATION, LEISURE and LIFELONG LEARNING
FACILITIES WITHIN NEATH PORT TALBOT

September 2013




Page 1 of 18



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

3.5 Ceredigion



<http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Preswylwr/gofalcymdeithasol/teimlonddiogel/diogelu/Pages/default.aspx>



3.6 Powys

<http://www.powys.gov.uk/cy/gwasanaethau-plant/rhoi-gwybod-am-gam-drin-plant/>

Atodiad 4: Polisi Cyngor Sir Penfro o ran y Defnydd o'r Rhyngrwyd

http://pccintranet.pembrokeshire.gov.uk/objview.asp?object_id=2414

Atodiad 5: Swyddog Dynodedig ERW

Betsan O'Connor, Rheolwr Gyfarwyddwr ERW

Rhif Ffôn y Swyddfa: 01267 676840

Rhif Ffôn Symudol: 07776 457132